



Y Gyfraith Newydd ar Arddangos Tybaco o 6 Ebrill 2015

Ateb Eich Cwestiynau

1. Camau i'w cymryd gan fanwerthwyr sy'n gwerthu tybaco

Pryd y daw'r newidiadau i rym?

Beth yn union sydd angen i mi ei wneud?

2. Beth yw diben y newidiadau?

Pam y newidiodd y Llywodraeth y gyfraith?

A fydd y Llywodraeth yn talu cost gosod gantri tybaco newydd yn lle fy ngantri presennol.

Pam bod angen gorchuddio arddangosfeydd tybaco os yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno pecynnau safonol?

3. Pwy sydd angen gweithredu?

Rwy'n gwerthu tybaco, a yw'n gymwys i mi?

Ai dim ond i siopau papurau newydd y mae'r gwaharddiad yn gymwys? Beth am dafarndai a siopau diodydd trwyddedig? Beth am fariau shisha?

A yw'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar y sector lletygarwch?

Beth am gynhyrchion tybaco sy'n cael eu gwerthu ar-lein?

A yw'r gyfraith hon yn gymwys i werthwr tybaco arbenigol?

A yw'r gyfraith hon yn gymwys i gyfanwerthwyr megis busnesau 'talw a chario'

4. Sut y bydd y gyfraith yn gweithio yn ymarferol?

Sut y caiff y gyfraith ei gorfodi?

A fydd angen i mi gael uned arddangos arbennig?

Beth fydd yn digwydd os bydd fy nghynhyrchion tybaco yn dal i gael eu harddangos ar ôl 6 Ebrill 2015?

Beth am arddangos ategolion ysmegu - h.y. papurau tybaco a dyfeisiau tanio? A oes angen gorchuddio'r rhain?

Sut y bydd fy nghwsmeriaid yn gwybod fy mod yn gwerthu sigarêts o hyd?

Sut y byddaf yn gallu hysbysebu cynhyrchion tybaco a'u prisiau?

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn agor y gantri newydd i'w ailstocio neu ei lanhau? A fyddaf yn torri'r gyfraith?

Beth os bydd cwsmer yn gofyn am gael gweld yr ystod lawn o gynhyrchion tybaco cyn iddo brynu rhywbeth?

5. Yr effaith hyd yma

A yw siopau mawr wedi colli arian drwy orchuddio eu harddangosfeydd tybaco?

Pa effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar fy musnes?

A fydd hyn ar arwain at fwy o werthiannau tybaco anghyfreithlon?

6. Ble gallaf fynd i gael rhagor o wybodaeth, help a chyngor?

Cwestiynau ac Atebion

1. Camau i'w cymryd gan fanwerthwyr sy'n gwerthu tybaco

Pryd y daw'r newidiadau i rym?

Mae'n rhaid i bob arddangosfa dybaco agored mewn siopau fod wedi'i gorchuddio o 6 Ebrill 2015. Bu'n rhaid i fanwerthwyr mawr orchuddio arddangosfeydd tybaco ers 2012 ac mae'r gyfraith bellach yn dod i rym ar gyfer busnesau bach a chanolig.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

O fis Ebrill 2015, os ydych yn gwerthu tybaco bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Gwneud yn siŵr nad yw cynhyrchion tybaco yn cael eu harddangos i'r cyhoedd (ac eithrio o dan amgylchiadau cyfyngedig a esbonnir isod);
- Gwneud yn siŵr mai dim ond yn y fformatau a nodir yn y gyfraith newydd y caiff prisiau cynhyrchion tybaco eu harddangos.

Nid yw'r gyfraith yn nodi *sut* y mae'n rhaid i chi orchuddio eich arddangosfa dybaco ond mae'n rhaid i chi orchuddio'r tybaco yn gyfan gwbl a phan fyddwch yn mynd i nôl y tybaco, ni ellir arddangos mwy nag 1.5 metr sgwâr o'r gantri. Gall manwerthwyr ddewis drostynt hwy eu hunain y dull mwyaf priodol ac effeithlon o gadw eu cynhyrchion tybaco o'r golwg. Efallai y caiff rhai manwerthwyr gymorth os yw eu gantri yn eiddo i weithgynhyrchwyr tybaco ond ni ellir gwarantu'r cymorth hwn.

2. Beth yw diben y newidiadau?

Pam y newidodd y Llywodraeth y gyfraith?

Drwy roi terfyn ar arddangosfeydd tybaco parhaol mae'r Llywodraeth yn ceisio lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmegu a helpu ysmegwyr sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy ddileu ffynhonnell o demtasiwn i brynu sigarêts yn fyrfyr.

Mae ysmegu yn achosi tua 5,650 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru a dechreuodd dau o bob tri ysmegwr rheolaidd ysmegu cyn iddynt gyrraedd 18 oed.

Dengys tystiolaeth y gall arddangosfeydd tybaco lliwgar a deniadol mewn siopau annog pobl ifanc i ddechrau ysmegu a thanseilio penderfyniad oedolion sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmegu. Mae'n bwysig diogelu plant a phobl ifanc rhag cynhyrchion tybaco sy'n cael eu hyrwyddo'n ddigymell.

Mae strategaeth y Llywodraeth yn gweithio - mae cyfraddau ysmegu oedolion ar eu lefelau isaf erioed ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 13% o ddisgyblion 15 oed yn ysmegu'n rheolaidd, o gymharu â 23% yn 2004.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y rôl bwysig y mae manwerthwyr yn ei chwarae o ran atal plant a phobl ifanc rhag cael gafael ar dybaco drwy orfodi deddfwriaeth sy'n gwahardd gwerthu tybaco i rai dan oed yn effeithiol.

A fydd y Llywodraeth yn talu cost gosod 2hario tybaco newydd yn lle fy gantri presennol.

Gohiriwyd dyddiad dechrau'r gyfraith newydd hon tan 2015 ar gyfer siopau bach ac un o'r rhesymau dros wneud hynny oedd er mwyn rhoi amser i fanwerthwyr llai o faint fanteisio ar yr amrywiaeth o atebion a ddatblygwyd ar gyfer siopau mwy o faint. Efallai y byddwch am gysylltu â pherchennog eich gantri er mwyn trafod cynlluniau ar gyfer cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Ni fydd y Llywodraeth yn talu am unrhyw newidiadau i gantrïau tybaco.

Credwn fod ffyrdd ymarferol a chosteffeithiol o sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth. Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'ch corff masnach/cynrychioliadol i gael cyngor. Mae rhai cyrff masnach wedi llunio eu canllawiau eu hunain ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Enghraifft dda o hyn yw'r canllawiau a luniwyd gan Gymdeithas y Siopau Cyfleustra sydd ar gael yn: <http://www.acs.org.uk/advice/tobacco-display-ban/>

Mae canllawiau manwl i fanwerthwyr a swyddogion safonau masnach hefyd ar gael ar wefan 'Business Companion' y Sefydliad Safonau Masnach. Cliciwch ar www.businesscompanion.info a dewiswch y canllawiau ar y gofynion o ran arddangosfeydd tybaco fel y maent yn gymwys i Gymru. Noder: bydd Busnes Cymru hefyd yn darparu canllawiau i fusnesau yng Nghymru.

Os bydd gennych gwestiynau o hyd, ar ôl edrych ar y canllawiau uchod, gallwch hefyd gysylltu ag adran safonau masnach eich awdurdod lleol.

Beth yw diben gorchuddio arddangosydd tybaco os yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno pecynnau safonol?

Mae pecynnau safonol yn fater ar wahân nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud penderfyniad terfynol arno eto. Ystyriodd Syr Cyril Chantler y mater hwn yn adroddiad ei adolygiad annibynnol ar yr effaith y mae pecynnau safonol yn ei chael ar iechyd y cyhoedd. Nododd ei adroddiad na fydd rhoi terfyn ar arddangosfeydd tybaco agored mewn 3hario a mangreoedd eraill yn effeithio ar amlygiad pobl ifanc I ddelweddau brandiau sigarêts ar adegau eraill, megis pan fydd ffrindiau ac aelodau o'r teulu sy'n ysmegu yn cymryd eu pecynnau sigarêts allan neu'n eu gadael ar hyd y lle.

3. Pwy sydd angen gweithredu?

Rwy'n gwerthu tybaco, a yw'n gymwys I mi?

Mae'r gyfraith yn gymwys i bob busnes sy'n gwerthu tybaco i'r cyhoedd. Bu mewn grym ar gyfer siopau mawr (ag arwynebedd perthnasol sy'n fwy na 280 metr sgwâr) ers 2012 a daw i rym ym mhob mangre sy'n gwerthu tybaco o 6 Ebrill 2015. Ar ôl y dyddiad hwnnw bydd yn anghyfreithlon arddangos cynhyrchion tybaco ac eithrio i bobl dros 18 oed o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a ganiateir gan y gyfraith.

Cyn dangos cynnyrch tybaco i gwsmer sy'n gofyn am gael ei brynu efallai y bydd angen i chi gadarnhau faint yw ei oedran.

Mae trefniadau ar wahân ar gyfer gwerthwyr tybaco arbenigol a swmpwerthwyr tybaco sy'n cydnabod natur arbenigol eu busnesau.

Nid yw'r gyfraith yn cwmpasu ategolion tybaco megis matsis, tanwyr a phapurau rholio.

Ai dim ond i siopau y mae'r gwaharddiad yn gymwys? Beth am tafarndai a siopau diodydd trwyddedig? Beth am fariau shisha?

Mae'r newidiadau yn gymwys i bob busnes sy'n gwerthu tybaco i'r cyhoedd, sy'n cynnwys siopau a safleoedd trwyddedig sy'n gwerthu tybaco i'w ddefnyddio ar y safle megis tafarndai a chlybiau, a bariau shisha.

Bydd angen i **unrhyw** fusnes sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco i'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai yn y diwydiant lletygarwch a safleoedd trwyddedig sy'n gwerthu tybaco i'w ddefnyddio ar y safle, megis tafarndai a chlybiau, gydymffurfio â'r gyfraith newydd o 6 Ebrill 2015.

Beth am gynhyrchion tybaco sy'n cael eu gwerthu ar-lein?

Nid yw'r gyfraith ar arddangos tybaco yn gymwys i wefannau. Bydd Rheoliadau Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ac ati (Diwygio) 2006 yn gymwys o hyd. Bydd busnesau yn gallu dangos cynhyrchion tybaco a'u prisiau ar eu gwefannau siopa ar-lein o hyd.

A yw'r gyfraith hon yn gymwys I werthwr tybaco arbenigol?

Mae darpariaethau arbenigol ar gyfer gwerthwyr tybaco arbenigol am nad ydynt yn cael eu mynychu gan blant fel rheol. Bydd gwerthwyr tybaco arbenigol yn gallu arddangos cynhyrchion tybaco ar yr amod na ellir eu gweld o'r tu allan i'r siop.

A yw'r gyfraith hon yn gymwys I gyfanwerthwyr megis busnesau talu a 4hariot?

Os yw'r safle talu a chario yn agored i bobl o'r tu allan i'r fasnach dybaco (h.y. y cyhoedd), mae'r gyfraith newydd ar arddangos cynhyrchion tybaco yn gymwys. Efallai y bydd busnes talu a chario yn bodloni'r diffiniad o swmpwerthwr tybaco ac yn gallu arddangos cynhyrchion mewn ardal neu ystafell dybaco ar wahân.

4. Sut y bydd y gyfraith yn gweithio yn ymarferol?

Sut y caiff y gyfraith ei gorfodi?

Swyddogion safonau masnach awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith hon.

A fydd angen I mi gael uned arddangos arbennig?

Credwn fod sawl ffordd ymarferol o sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ynglŷn ag arddangos tybaco. Er enghraifft, mae canllawiau Cymdeithas y Siopau Cyfleustra yn awgrymu atebion posibl gan gynnwys llen, drws llithro neu ddefnyddio storfa o dan neu dros y cownter. Efallai y bydd rhai busnesau yn dewis cadw pecynnau sigarêts o'r golwg, ond gallant roi gwybod i gwsmeriaid eu bod ar werth o hyd [gweler y cwestiwn '*Sut y bydd fy nghwsmeriaid yn gwybod fy mod yn gwerthu sigarêts o hyd?*' isod]. Os yw eich gantri yn eiddo i weithgynhyrchwr tybaco, efallai y byddwch am gysylltu ag ef i gael cyngor pellach.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy nghynhyrchion tybaco yn dal I gael eu harddangos ar ôl 6 Ebrill 2015?

Mae'r mwyafrif helaeth o fanwerthwyr yn rhedeg busnesau cyfrifol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â'r gyfraith o ddifrif. Rydym hefyd yn sylweddoli y gallai methiant i gydymffurfio â'r gyfraith ddeillio o ddiffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a gellid ymdrin â hynny drwy ddarparu gwybodaeth, canllawiau a chymorth. Mae'r rhain ar gael ar wefan y 'Business Companion' a gallant hefyd gael eu darparu gan eich gwasanaeth safonau masnach lleol.

Fodd bynnag, chi sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion hyn; mae methu â gwneud hynny yn drosedd. Gellir dwyn achos yn erbyn unrhyw un, gan gynnwys rheolwyr siopau a chynorthwyrwyr siop, nad yw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac efallai y bydd angen iddo dalu dirwy (hyd at £5000 ar hyd o bryd) neu gallai gael ei garcharu am hyd at chwe mis.

Beth am arddangos ategolion ysmygu - h.y. papurau tybaco a dyfeisiau tanio? A oes angen gorchuddio'r rhain?

Gall ategolion tybaco, megis papurau rholio, tanwyr a phibellau, barhau i gael eu harddangos fel y gall y cyhoedd eu gweld. Efallai y bydd angen i fanwerthwyr ystyried trefniadau newydd os yw ategolion yn cael eu cadw yn y prif gantri ar hyn o bryd oherwydd bydd yn drosedd arddangos cynhyrchion tybaco wrth werthu cynhyrchion nad ydynt yn rhai tybaco i gwsmeriaid.

Sut y bydd fy nghwsmeriaid yn gwybod fy mod yn gwerthu sigarêts?

Bydd oedolion sy'n ysmegu yn gallu prynu sigarêts a thybaco o hyd yn union fel y gwnânt ar hyn o bryd a byddwch yn gallu tynnu sylw at y ffaith bod tybaco ar werth. Caniateir arwyddion cyffredinol heb eu brandio megis 'Tybaco ar werth yma' mewn unrhyw fformat.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal gweithgarwch cyfathrebu er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ffaith na fydd tybaco yn cael ei arddangos i'r cyhoedd mwyach cyn i'r gyfraith ddod i rym ar 6 Ebrill 2015. Bydd pobl yn gallu prynu eu tybaco o'r un siop yn y ffordd arferol o hyd.

Sut y byddaf yn gallu hysbysebu cynhyrchion tybaco a'u prisiau?

Mae'r gyfraith yn caniatáu tri math o restrau a labeli prisiau. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffont Helvetica du ar gefndir gwyn. Gallwch gael:

- Un poster (hyd at faint A3) yn dwyn y teitl '*Rhestr o brisiau cynhyrchion tybaco / Tobacco products price list*'. Gellir defnyddio is-benawdau - "*sigarêts / cigarettes*"; "*tybaco rholio â llaw / hand rolling tobacco*"; "*sigârs / cigars*"; "*cynhyrchion tybaco eraill / other tobacco*". Mae'n rhaid cyfyngu'r arddangosfa o brisiau am gynhyrchion tybaco i enw'r brand a'r pris a defnyddio geiriau nad ydynt yn fwy na ffont 30.
- Catalog o gynhyrchion, nad yw'n cael ei arddangos oni fydd rhywun dros 18 oed yn gofyn amdano, sy'n cynnwys geiriau nad ydynt yn fwy na ffont 14 a lle nad oes unrhyw luniau o gynhyrchion yn fwy na 50 cm².
- Labeli prisiau ar silffoedd, gydag un label fesul cynnyrch nad yw'n fwy na 9 cm².

Mae'n drosedd arddangos prisiau cynhyrchion tybaco mewn ffordd nad yw'n bodloni'r gofynion hyn.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn agor yr uned storio l'w hailstocio neu ei glanhau? A fyddaf yn torri'r gyfraith?

Mae'r gyfraith yn ystyried y gweithgareddau y mae angen eu cyflawni bob dydd er mwyn rhedeg busnes. Dim ond am gyhyd ag y bo'n rhesymol i gwblhau unrhyw un o'r canlynol y gall y gantri fod ar agor.

- Asesu lefelau'r stoc at ddibenion rheoli stoc;
- Ailstocio;
- Hyfforddi staff;
- Glanhau, cynnal a chadw neu adnewyddu uned storio tybaco; neu
- Gosod label a ganiateir (arwyddion) ar yr uned storio.

Beth os bydd cwsmer yn gofyn am gael gweld yr ystod lawn o gynhyrchion tybaco cyn iddo brynu rhywbeth?

Nid yw'n drosedd dangos cynnyrch tybaco i rywun 18 oed neu drosodd sy'n gofyn am gael prynu cynnyrch tybaco neu sydd wedi gofyn am wybodaeth am gynnyrch tybaco. Disgrifir arddangosfa o'r fath yn y ddeddfwriaeth fel "arddangos cynhyrchion tybaco ar gais". Nid yw'n drosedd os bydd pobl eraill yn y siop (gan gynnwys plant) yn gweld cynnyrch tybaco o ganlyniad i "arddangos cynhyrchion tybaco ar gais".

5. Yr effaith hyd yma

A yw siopau mawr wedi colli arian drwy orchuddio eu harddangosfeydd tybaco?

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd gwerthiannau tybaco yn gostwng yn sylweddol ar ôl i arddangosfeydd tybaco gael eu gorchuddio. Bydd oedolion sy'n ysmegu yn gallu prynu eu sigarêts a'u tybaco yn y ffordd arferol o hyd.

Pa effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar fy musnes?

Heblaw am y costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â gorchuddio gantrïau arddangos tybaco, a gaiff eu talu mewn llawer o achosion gan y diwydiant tybaco sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r gantrïau, ni fydd y ddeddfwriaeth yn cael fawr ddim effaith. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu rhai busnesau bach yn yr hinsawdd economaidd bresennol a dyna pam y gohiriwyd y dyddiad gweithredu ar gyfer siopau bach tan 2015.

Gwnaed hyn er mwyn rhoi mwy o amser i fusnesau bach baratoi a manteisio ar yr amrywiaeth o atebion a ddatblygwyd ar gyfer siopau mwy o faint (lle y daeth y gyfraith i rym ym mis Rhagfyr 2012). O ran gwerthiannau tybaco, ystyrir bod yr effaith uniongyrchol yn fach.

Mae'n debygol y bydd y gyfraith newydd ond yn effeithio'n raddol ar nifer y bobl sy'n ysmegu yn y tymor hwy – yn bennaf drwy leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmegu.

Oni fydd hyn yn arwain at fwy o werthiannau tybaco anghyfreithlon?

Nid oes unrhyw dystiolaeth o wledydd sydd wedi gwahardd arddangosfeydd tybaco mewn siopau fod rhoi terfyn ar arddangosfeydd yn cynyddu'r fasnach anghyfreithlon, er enghraifft Gweriniaeth Iwerddon lle y cafodd arddangosfeydd tybaco eu gwahardd ym mis Gorffennaf 2009. Dengys y profiad mewn siopau mwy o faint y bydd oedolion sy'n ysmegu yn parhau i brynu eu sigarêts a'u tybaco fel y gwnânt ar hyn o bryd.

6. Ble gallaf fynd i gael rhagor o wybodaeth, help a chyngor?

Gall manwerthwyr fynd i nifer o leoedd i gael cyngor. Er enghraifft, efallai y bydd manwerthwyr a busnesau eraill am gysylltu â'u corff masnach neu eu corff cynrychioliadol i gael cyngor. Mae rhai cyrff masnach wedi llunio eu canllawiau eu hunain ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Enghraifft dda o hyn yw'r canllawiau a luniwyd gan Gymdeithas y Siopau Cyfleustra sydd ar gael yn: <http://www.acs.org.uk/advice/tobacco-display-ban/>

Mae canllawiau manwl i fanwerthwyr a swyddogion safonau masnach hefyd ar gael ar wefan 'Business Companion' y Sefydliad Safonau Masnach www.businesscompanion.info

At hynny, efallai y bydd manwerthwyr am gysylltu â swyddogion safonau masnach yn eu cyngor lleol a fydd yn gallu rhoi cyngor pellach iddynt. Ceir manylion ar wefan Safonau Masnach Cymru: <http://www.tradingstandards.wales.org.uk/contact/index.cfm>